

CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD 03.06.24 am 7.00pm trwy
Zoom. MINUTES OF MEETING HELD ON 03.06.24 at 7.00pm via Zoom

	PRESENNOL: Cynghorwyr S Jones, C Summers, O Williams, R Jones, D Fowlie, G Owen (Clerc).	PRESENT: Cllrs S Jones, C Summers, O Williams, R Jones, D Fowlie, G Owen (Clerc).
1	Croeso ac ymddiheuriadau – Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd S Jones bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A Williams, D Roberts ac H N Evans.	Welcome and apologies - The Chairman Cllr S Jones welcomed everyone to the meeting. There were apologies for absence from Cllrs A Williams, D Roberts and H N Evans.
2	Datgan Diddordeb - Dim	Declarations of Interest – None
3	Derbyn cofnodion y cyfarfod misol diwethaf – Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 13.05.24 fel rhai cywir.	Acceptance of minutes of last monthly meeting – The minutes of the meeting of 13.05.24 were accepted as a true record.
4	Materion yn codi o'r cofnodion	Matters arising from the minutes
4.1	Prydles Cae Chwarae – Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir am ddiweddariad.	Lease of Playing – The Clerk will ask the County Council for an update.
4.2	Mynwent St Morhaiarn – Mae'r Cynghorydd H N Evans yn aros am wybodaeth gan y Cyngor Sir.	St Morhaiarn Cemetery – Cllr H N Evans is waiting for information from the County Council.
4.3	Bragdy – Newhaven - Bydd y Cyngor Sir yn trefnu cyfarfod safle.	Bragdy – Newhaven – The County Council will be arranging a site meeting.
4.4	Llifogydd Gwalchmai – mewn llaw	Floods Gwalchmai – In hand
4.5	Lorïau'n Gorryru – Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan Rhun ap Iorwerth yn ddiweddgar yn Neuadd y Pensiynwyr, Gwalchmai. Deallir ei fod yn mynd i ofyn i'r Cyngor Sir am arwyddion ychwanegol ar yr A5/A55, gofyn iddynt siarad â pherchnogion y cwmnïau lori ynglŷn â llwybrau ac awgrymu cyfyngiad o 7.5 tonnelli yng Ngwalchmai.	Speeding Lorries – A public meeting organised by Rhun ap Iorwerth was held recently at the Pensioner Hall, Gwalchmai. It is understood that he is going to ask the County Council for additional signs on the A5/A55, ask them to speak to owners of the lorry companies regarding routes and suggest a 7.5 ton limit in Gwalchmai.
4.6	Ysbwriel - Mae'r Cynghorydd D Fowlie wedi siarad â'r Cyngor Sir ac mae'r sbwriel wedi'i symud.	Litter – Cllr D Fowlie has spoken to the County Council and the rubbish has been removed.
	Llofnod Cadeirydd Dyddiad 08.07.24	Signature Chairman Date 08.07.24

4.7	Arriva (gwasanaethau A5) - Mae'r Clerc wedi cael ymateb gan y Cyngor Sir yn cadarnhau fod y safle bws tu allan i Westy Gwalchmai bellach yn safle bws swyddogol. Mae cofnodion y Cyngor Sir a Trafnidiaeth Cymru wedi eu diweddarau. Bydd yr arwydd electronig yn cael ei atgyweirio.	Arriva (services A5) – The Clerk has had a response from the County Council confirming that the bus stop outside the Gwalchmai Hotel is now an official bus stop. The County Council and Wales Transport records have been updated. The electronic display will be repaired.
4.8	Chwarel Cae'r Glaw – Mae'r Clerc wedi derbyn ymateb gan yr asiant ar ran Hogans, perchnogion y chwarel yn dweud na fyddan nhw'n cynnal cyfarfod cyhoeddus. Fodd bynnag, maent yn fodlon cynnal diwrnod agored yn y chwarel i drigolion ardal Gwalchmai ei fynychu a gofyn cwestiynau. Byddai'n well gan y Cyngor Cymuned a Grŵp Gwarchod Gwalchmai pe bai Hogans yn dod i'r gymuned i drefnu arddangosfa a diwrnod agored. Mae'r cyngor a Grŵp Gwalchmai yn siomedig iawn gyda'u hymateb, yn enwedig ar ôl i deimladau'r cyhoedd gael eu gwneud yn glir ynglŷn â nifer y cerbydau sy'n goryrru drwy Walchmai. Teimlant nad yw hyn yn dangos arfer da tuag at y gymuned. Yn wir mae'n agwedd sarhaus. Bydd y Clerc yn cysylltu â Hogans ac yn gofyn iddynt drefnu diwrnod agored yng Ngwalchmai.	Cae'r Glaw Quarry – The Clerk has received a response from the agent on behalf of Hogans, the owners of the quarry stating that they will not hold a public meeting. However, they are willing to hold an open day at the quarry for residents of the Gwalchmai area to attend and ask questions. The Community Council and Grwp Gwarchod Gwalchmai would prefer that Hogans come to the community and set up an exhibition and open day. Both the council and Grwp Gwalchmai are very disappointed at their response, especially after the feelings of the public have been made clear regarding the number of vehicles speeding through Gwalchmai. They feel that this does not show good practice towards the community. Indeed it is an offensive attitude. The Clerk will contact Hogans and ask them to arrange an open day at Gwalchmai.
4.9	Lampau ger Castell – Mewn llaw	Lamps near Castell – In hand
4.10	Afon Felin – Mae -y Clerc yn aros am ymateb gan y Cyngor Sir.	Afon Felin – The Clerk is waiting for a response from the County Council.
4.11	Taliadau Adran 106 – Mae'r Clerc yn aros am ymatebion oddi wrth Adrannau Addysg a Thai y Cyngor Sir.	Section 106 payments – The Clerk is waiting for responses from the Education and Housing Depts at the County Council.
4.12	Llwybr troed ger Cefn Llongau – Mae hyn wedi ei wneud a gellir ei dynnu oddi ar yr agenda.	Footpath near Cefn Llongau – This has been done and can be removed off the agenda.
5	Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn	Correspondence Anglesey County Council
	Llofnod Cadeirydd Dyddiad 08.07.24	Signature Chairman Date 08.07.24

	Cynllunio	Planning
5.1	Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn (2024-2039) - Mae pob aelod wedi derbyn copi o'r cynllun a byddant yn ymateb yn unigol os oes ganddynt unrhyw sylwadau	Anglesey Local Development Plan (2024-2039) – Members have received a copy of the plan and will respond individually if they have any comments.
5.2	Penderfyniadau Apêl Stryd y Goron, Gwalchmai a Phen y Bryn uchaf, Gwalchmai – Hysbysiadau gan y Cyngor Sir yn cadarnhau bod y ddau benderfyniad wedi eu caniatáu ar apêl. Deallir bod Rhun ap Iorwerth wedi trefnu cyfarfod gyda'r Cyngor Sir i holi ynglŷn â'r broses o ddewis tenantiaid yn Crown St.	Appeal Decisions Crown St, Gwalchmai and Pen y Bryn uchaf, Gwalchmai – Notices from the County Council confirming that both decisions have been allowed on appeal. It is understood that Rhun ap Iorwerth has arranged a meeting with the County Council to enquire regarding the selection process for tenants at Crown St.
	Priffyrdd	Highways
5.3	Arosfannau bysiau Gwalchmai – gweler 4.7	Bus stops Gwalchmai – see 4.7
6	Gohebiaeth Arall	Other Correspondence
6.1	Lwfans Blynyddol yr Aelodau – Atgoffodd y Clerc yr aelodau bod y lwfans blynyddol ar gael iddynt ac y gellir gwneud y taliad ychwanegol pe bai unrhyw enwebiadau yn cael eu gwneud. Gofynnwyd i'r aelodau lenwi'r ffurflen a dderbyniwyd ganddynt drwy e-bost i ddatgan a ydynt yn dymuno hawlio'r lwfans ai peidio.	Members Annual Allowance – The Clerk reminded members that the annual allowance is available to them and that the additional payment can be made if any nominations were to be made. Members were asked to complete the form they have received by email to declare whether or not they wish to claim the allowance.
7	Materion Eraill	Other Matters
7.1	Llwybrau – Oherwydd adroddiadau o knotweed, deallir y bydd y Cyngor Sir yn gosod gwenwyn ar y knotweed deirgwaith y flwyddyn.	Paths – Due to reports of knotweed, it is understood that the County Council will be placing poison on the knotweed three times a year.
7.2	Pen Bonc – mae'r Cyngor Sir wedi cael cais i dorri Lon Pen Bonc	Pen Bonc – the County Council have been asked to cut Lon Pen Bonc
7.3	Eisteddfod yr Urdd 2026. Mynychodd y Cadeirydd y Cyng Sharon Jones gyfarfod diweddar i baratoi ar gyfer yr Eisteddfod. Dywedodd fod disgwyl i ardal Bryngwran a Gwalchmai godi £7500 tuag at y digwyddiad. Bydd y Clerc yn y pen draw yn derbyn cais ffurfiol am gyllid.	Eisteddfod yr Urdd 2026. The Chairman Cllr Sharon Jones attended a recent meeting in preparation for the Eisteddfod. She said that the Bryngwran and Gwalchmai area is expected to raise £7500 towards the event. The Clerk will eventually receive a formal request for funding.
	Llofnod Cadeirydd Dyddiad 08.07.24	Signature Chairman Date 08.07.24

7.4	Clwb Pêl-droed - Llongyfarchwyd Clwb Pêl-droed Gwalchmai ar ennill y cwpan canolradd yn ddiweddar, hefyd Wil Williams sydd wedi bod yn ysgrifennydd y clwb ers 50 mlynedd.	Football Club - Gwalchmai Football Club was congratulated on winning the intermediate cup recently, also to Wil Williams who has been the club's secretary for 50 years.
8	Materion ariannol	Financial Matters
	Cytunwyd i dalu	It was agreed to pay
8.1	Geiriau Gwyn £144.00 (Inv 2679)	Geiriau Gwyn £144.00 (Inv 2679)
8.2	Audit Wales £270.00 (ffi 22-23)	Audit Wales £270.00 (22-23 fee)
9	Materion ar gyfer y cyfarfod nesaf	Matters for the next meeting
	Dim	None
	Llofnod Cadeirydd Dyddiad 08.07.24	Signature Chairman Date 08.07.24